Cofnodion Cyngor nos Iau Mai 12 2022 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, C.Brewer, C.L.Price, T.W.Jones, M.L.Hughes, M.Skerret, Iwan W Griffiths
Ymddiheuriadau: Liz Roberts
Datgan Diddordeb. Dim.

Agorwyd y Cyfarfod gan y Clerc gan mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf o'r 'Cyngor Newydd'- sicrhawyd fod pawb wedi cwblhau y ffurflen Datganiad Derbyn Swydd. Gofynnodd y Clerc am enw ar gyfer Cadeirydd i'r Cyngor, cytunwyd yn unfrydol i dderbyn y drefn sydd yn bodoli sef fod y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd yn y swydd am 2 flynedd, felly E.R.Noble fydd yn parhau fel Cadeirydd gyda T.W.Jones yn Is Gadeirydd. Aelodaeth yr is bwyllgorau i aros fel ag y maent ar wahan i'r Ganolfan ble'r enwyd M.L.Hughes i gymryd lle M.Chapman, ac I.W.Griffiths i gymryd lle M.Chapman ar is bwyllgor Toiledau a Llwybrau. Costau'r fynwent i aros fel ag y maent. Cytunwyd y dylai'r Clerc anfon gair at Myfanwy i ddiolch iddi am ei gwaith fel Cadeirydd ac aelod ffyddlon a gweithgar o'r Cyngor. Cyfeiriwyd at lwyddiant Liz Roberts yn etholiad y Cyngor Sir - bydd hi'n parhau i gynrychioli'r ardal, bydd cyfle i'w llongyfarch yng nghyfarfod mis Mehefin.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 14.4.22, cynnig C.L.Price, cefnogi M.Hughes.

Heddlu. Dim i'w adrodd.

Yr A470. Derbyniwyd atebiad i sylwadau'r Cyngor lleol gan R.Ryland ar ran T.Baines, yn cadarnhau y bydd atebiad llawn yn cael ei anfon o fewn 15 diwrnod.

Cyngor Sir. Cadarnhaodd C.L.Price nad oedd unrhyw waith wedi'i gwblhau ar Bont Tan y Castell, Clerc i gysylltu eto. Atebiad gan Kevin Jones fod C.Roberts yn cael golwg ar y tyllau hyd Ffordd Llwyn a Ffordd Roman, hefyd byddant yn rhaglennu gwaith ar Ffordd Wybrnant ac yn gadael i'r trigolion wybod.

Llwybrau. Y cyhoedd yn parhau i ddefnyddio'r 'ystol' awgrymwyd y dylai'r Clerc gysylltu ag Andrew? i holi am y sefyllfa, deallwyd fod gweithwyr wedi eu gweld ger y safle yn ddiweddar.

Pontydd yn yr Ardal. Clerc i gysylltu â Bryn Shiland i gael gwybodaeth am y sefyllfa gyda gwaith ar y pontydd gan gynnwys Pont yr Afon..

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim penderfyniad
Bodygroes - dim penderfyniad
Pont Chwarel y Fedw - dim penderfyniad

Llifogydd. Dim i'w adrodd.

Scottish Power. Dim i'w adrodd.

Toiledau. Llythyr gan Nia Roberts yn cadarnhau ei bod wedi cwblhau'r 'gwaith papur', neges gan S.Teale yn cadarnhau fod CBSC wedi derbyn manylion gan Nia, hefyd yn nodi bydd angen cyfarfod i ddarllen y meter dwr a thrydan ac ati cyn trosglwyddo i'r Cyngor. Bydd yn trefnu i CBSC wneud taliad blynyddol o £500 i'r Cyngor lleol at gynnal a chadw. Ni all Steve ddod i gyfarfod yr aelodau ar hyn o bryd gan ei fod yn dioddef gyda'r Cofid. Dylid gadael iddo wybod fod clo un o ddrysau'r toiled wedi torri.

Y Gofgolofn. Gofalwr. Mae Michael Finch wedi cychwyn ar ei waith ac yn torri'r gwair a chadw tir y Gofgolofn yn daclus.

Y Fynwent. Y gofalwr wedi cychwyn ar ei waith, Cadeirydd a'r Clerc i gyfarfod ag ef ar y safle i drafod y gwaith. Awgrymwyd gofyn i Dylan am bris am ei waith yn torri a chlirio coed oedd wedi disgyn ar sawl carreg fedd yn y gwynt diweddar.

Torri Coed y Fynwent. Cytunwyd y bydd angen trafod y gwaith mawr o dorri coed ac yna plannu rhai newydd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf/Medi? Bydd angen trafod hefo Cwmni Alfa hefyd wrth gwrs. Nodwyd diddordeb gan C.Brewer.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig T.W.Jones, cefnogi C.Brewer a pawb o blaid.

Gwefan y Cyngor. M.Skerrett yn ystyried sut y bydd orau i fynd ati i drefnu'r safle newydd.

Sgip. Rhoes y Clerc adroddiad o'r hyn wnaeth ddim digwydd - roedd wedi cysylltu â'r swyddog priodol yn CBSC i ddweud nad oedd y sgip wedi cyrraedd a doedd ganddo ddim syniad beth oedd wedi digwydd! Dywedodd M.Skerrett ar gyfer sgip Awst 3ydd, y dylid sicrhau na fydd gwybodaeth ar facebook, Menter Siabod fydd yn talu am honno, dylid trafod y trefniadau yn drylwyr gyda B.Valintine i geisio osgoi i'r un peth ddigwydd eto!

Adeilad gwâg yn y Pentref. Dim gwybodaeth pellach.

Materion i'r Cyngor Sir. Deallwyd fod twll yn llwybyr y Ddôl ar y bont fechan ochr Pentrefelin. Coeden gwaelod Allt Gweithdy angen sylw neu ei thorri oherwydd ei chyflwr, gwnaiff Liz Roberts gysylltu i nodi'r rhain gyda CBSC.

Cyflymder ceir drwy'r pentref. Clerc wedi cael manylion ar gyfer prynu 'gwn' a chael gwybod y gallai un newydd gostio swm anhygoel. Dywedodd T.W.Jones ei bod yn holi am brisiau eraill. Cytunodd yr Aelodau ei bod yn dda o beth fod amryw yn y pentref wedi dangos diddordeb i wneud hyn a'u bod yn hynod o ddiolchgar iddynt.

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Mehefin 12fed am 7pm, cadarnhaodd y Clerc y gallai fod ar wyliau yn y cyfnod yma ac y buasai'n gadael i'r Aelodau wybod os bydd newid.